# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 5

CODI FFIOEDD AC ASESIADAU ARIANNOL

*Gorfodi dyledion*

### 72 Trosglwyddo asedau i osgoi ffioedd

(1) Mae’r adran hon yn gymwys mewn achos pan fo anghenion person (“P”) wedi eu diwallu neu’n cael eu diwallu gan awdurdod lleol o dan adrannau 35 i 42 neu adran 45 a phan fo—

(a) person (“y trosglwyddwr”) (a gaiff fod yn P ond nid oes rhaid iddo) wedi trosglwyddo ased i berson arall (“trosglwyddai”),

(b) y trosglwyddiad wedi ei wneud gyda’r bwriad o osgoi ffioedd am ddiwallu anghenion P, ac

(c) naill ai’r gydnabyddiaeth ar gyfer y trosglwyddiad yn llai na gwerth yr ased neu na fo unrhyw gydnabyddiaeth ar gyfer y trosglwyddiad.

(2) Mae’r trosglwyddai yn atebol i dalu i’r awdurdod lleol swm sy’n hafal i’r gwahaniaeth rhwng—

(a) y swm y byddai’r awdurdod wedi ei godi ar y trosglwyddwr pe na bai’r ased wedi ei drosglwyddo, a

(b) y swm a gododd ar y trosglwyddwr mewn gwirionedd.

(3) Ond nid yw’r trosglwyddai yn atebol i dalu i’r awdurdod lleol swm sy’n fwy na’r budd a ddaw i’r trosglwyddai o’r trosglwyddiad.

(4) Pan fo ased wedi ei drosglwyddo i fwy nag un trosglwyddai, mae atebolrwydd pob trosglwyddai yn gymesur â’r budd a ddaw i’r trosglwyddai hwnnw o’r trosglwyddiad.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(5) Yn yr adran hon ystyr "ased" yw unrhyw beth y caniateir ei ystyried at ddibenion asesiad ariannol.

(6) Gwerth ased (ac eithrio arian parod) yw'r swm a geid pe bai'r ased wedi ei werthu ar y farchnad agored gan werthwr bodlon adeg y trosglwyddiad, gan ddidynnu ar gyfer—

(a) swm unrhyw lyffethair ar yr ased, a

(b) swm rhesymol mewn cysylltiad â threuliau'r gwerthiant.

(7) Caiff rheoliadau bennu achosion neu amgylchiadau pan na fo atebolrwydd o dan is-adran (2) yn codi.